Rhif: WG28123

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Cymorth ar gyfer blynyddoedd sylfaen

Dyddiad cyhoeddi: 3 Mawrth 2016
Camau i’w cymryd: Ymatebion erbyn 26 Mai 2016

OGL © Hawlfraint y Goron

# Cymorth ar gyfer blynyddoedd sylfaen

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig i gymorth i fyfyrwyr addysg uwch sy'n ymgymryd â blwyddyn sylfaen. |
| **Sut i ymateb** | Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod erbyn **26 Mai 2016** fan bellaf. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgynghoriadau |
| **Manylion cyswllt** | I gael rhagor o wybodaeth:<br>Adran Addysg Uwch<br>Y Gyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>e-bost: HEDConsultationsMailbox@cymru.gsi.gov.uk |
| **Diogelu Data** | Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni<br><br>Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch |

cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys

**Beth yw'r prif faterion?** **2**

**Cymorth ar gyfer blynyddoedd sylfaen** **3**

Y sefyllfa bresennol 3

Y ddadl o blaid newid 5

Ein cynnig 9

Effaith 10

Gweithredu 10

## Beth yw'r prif faterion?

1. Mae’r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr[1] sy’n dilyn cyrsiau gradd sy’n cynnwys blwyddyn ‘sylfaen’.

2. Bu peth trafodaeth yn y sectorau addysg bellach ac uwch ynglŷn â chymorth ar gyfer yr hyn a elwir yn flynyddoedd ‘sylfaen’, sydd, ymysg pethau eraill, yn ymestyn cyfnod rhai cyrsiau gradd drwy ychwanegu blwyddyn o astudiaeth. Mae cyrsiau gradd yn newid i fod yn bedair blynedd yn hytrach na’r tair arferol. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y ddarpariaeth hon o bosibl yn broblemus oherwydd ei bod 1) yn ychwanegu blwyddyn arall o ddyled i fyfyrwyr a 2) yn cynyddu costau i Lywodraeth Cymru. Mae’r buddion i’r myfyriwr yn aneglur. Mae Gweinidogion Cymru yn ceisio tystiolaeth ynglŷn â phwrpas darpariaeth o’r fath a safbwyntiau ynghylch a ddylid parhau i roi cymorth i fyfyrwyr er mwyn astudio am y flwyddyn ychwanegol.

3. Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud newidiadau i gymorth i fyfyrwyr yn flynyddol, ac nid y rhain yw’r unig newidiadau i gymorth i fyfyrwyr sy’n cael eu hystyried ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18. Efallai y bydd mwy o ymgynghori yn cael ei gynnal.

4. Mae’r ddogfen hon yn trafod y materion hyn ac yn gofyn am eich safbwyntiau. Y terfyn amser ar gyfer derbyn ymatebion yw 26 Mai 2016.

[1] Mae’r ddogfen hon yn cyfeirio at ‘fyfyrwyr sydd fel arfer yn byw yng Nghymru’, sef y term a ddefnyddir yn y rheoliadau sy’n ymwneud â chymorth i fyfyrwyr (Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2015). Mae rhai ystadegau yn defnyddio’r term ‘myfyrwyr sy’n hanu o Gymru’, gan mai dyma’r term a ddefnyddir yn y ffynhonnell.

# Cymorth ar gyfer blynyddoedd sylfaen

## Y sefyllfa bresennol

5. Mae Gweinidogion Cymru wedi dod yn ymwybodol o drafodaeth yn y sectorau addysg uwch ynglŷn â 'blynyddoedd sylfaen', a elwir weithiau'n rhaglenni astudiaeth 'blwyddyn sero'. Mae'r cyrsiau hyn yn ychwanegu blwyddyn at raglen gradd israddedig[2]. Mae'n ymddangos bod y flwyddyn gyntaf - blwyddyn sero - yn cael ei defnyddio i godi lefelau cyrhaeddiad myfyrwyr na fyddai fel arall efallai'n bodloni gofynion mynediad rhaglen gradd israddedig i'r lefel sydd ei hangen er mwyn symud ymlaen i flynyddoedd dilynol mwy arferol y rhaglen. Efallai y bydd myfyrwyr ar gyrsiau o'r fath yn gymwys i dderbyn cymorth ar gyfer holl flynyddoedd y rhaglen. Ni ddylid drysu rhwng blynyddoedd sylfaen a chyrsiau sylfaen traddodiadol[3] na graddau sylfaen.

6. Mae data gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn awgrymu nad yw cyfanswm y myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau sy'n cynnwys blwyddyn sylfaen yn ansylweddol (tabl 1). Fel cymhariaeth, roedd yna 555,715 o fyfyrwyr llawn amser yn hanu o Gymru mewn Sefydliadau Addysg Uwch yn y DU yn 2013/14[4].

**Tabl 1**

Myfyrwyr llawn-amser ar gyrsiau sy'n cynnwys blwyddyn sylfaen, 2014/15

| | Yn astudio yn | | |
|---|---|---|---|
| Preswylfan | Lloegr | Cymru | Cyfanswm |
| UE | – | 105 | 105 |
| Cymru | 504 | 1,179 | 1,683 |
| Cyfanswm | 504 | 1,284 | 1,788 |

Ffynhonnell: Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Myfyrwyr ar gyrsiau y mae'r Sefydliad Addysg Uwch wedi nodi eu bod yn cynnwys blwyddyn sylfaen/blwyddyn 0 ym mhob blwyddyn astudio.


[2] Mae Gweinidogion Cymru yn ymwybodol y gallai fod gan raglenni gradd flynyddoedd ychwanegol am wahanol resymau. Yn ôl data gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, mae Sefydliadau Addysg Uwch Cymru yn cynnig 203 o raddau llawn-amser sy'n para pedair blynedd neu fwy.

[3] Mae'r cyrsiau hyn wedi'u hen sefydlu ac maent fel rheol yn paratoi myfyrwyr ar gyfer blwyddyn gyntaf eu gradd gelf a dylunio.

[4] 'Cofrestriadau Addysg Uwch ymhlith myfyrwyr sy'n hanu o Gymru mewn Sefydliadau Addysg Uwch yn y DU yn ôl pwnc, lefel a dull astudio.' StatsCymru.

7. Mae data gan Awdurdod Ystadegau Addysg Uwch ar fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru sydd ar flwyddyn sylfaen/blwyddyn sero yn awgrymu bod darpariaeth o'r fath hefyd yn tyfu (ffigwr 1)[5]. Mae'n ymddangos bod y twf hwn yn digwydd yn bennaf mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru.

**Ffigwr 1**
Myfyrwyr llawn-amser sy'n hanu o Gymru sydd ar eu blwyddyn sylfaen.




Ffynhonnell: Awdurdod Ystadegau Addysg Uwch. Sylwer, mae'n cynnwys rhai sydd ar gyrsiau sy'n arwain at radd gyntaf ac ôl-radd.

## Cymorth i fyfyrwyr

8. Mae Gweinidogion Cymru yn darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr gradd ar ffurf grantiau a benthyciadau er mwyn eu galluogi i i) dalu costau ffioedd a godir gan ddarparwyr addysg uwch a ii) helpu i dalu am gostau byw. Gall myfyrwyr ar gyrsiau sy'n cynnwys blwyddyn sylfaen fod yn gymwys i dderbyn cymorth. Nid yw cymorth tuag at flwyddyn sylfaen cwrs gradd gyntaf yn wahanol mewn unrhyw ffordd i'r hyn sydd ar gael tuag at y blynyddoedd gradd dilynol.

[5] Mae Tabl 1 yn cofnodi pob myfyriwr ar gyrsiau sy'n cynnwys blwyddyn sylfaen. Mae Ffigwr 1 ond yn cofnodi myfyrwyr sydd yn eu blwyddyn sylfaen. Nid oes modd cymharu'r data yn uniongyrchol gan ei fod yn dod o wahanol ffynonellau.

## Y ddadl o blaid newid

### Pwrpas

9. Mae'n ymddangos mai pwrpas blynyddoedd sylfaen yw gwella cyrhaeddiad rhai a dderbynnir mewn colegau nad oes ganddynt gymwysterau digonol i gael mynediad i raglen gradd. Er enghraifft, mae Prifysgol Loughborough yn cynnig blynyddoedd sylfaen mewn gwyddoniaeth a disgyblaethau peirianneg:

> *'Mae **Rhaglen Astudiaethau Sylfaen mewn Gwyddoniaeth a Pheirianneg** yn helpu amrywiaeth o fyfyrwyr sydd eisiau astudio tuag radd mewn gwyddoniaeth neu beirianneg yn Loughborough, ond sydd wedi dilyn llwybr anghonfensiynol wrth gyrraedd at y penderfyniad hwn.'*[6]

10. Fel enghraifft arall, mae Prifysgol Glyndŵr yn cynnig 'blwyddyn gicdanio'.

> *'Dyluniwyd y flwyddyn cicdanio er mwyn darparu'r sgiliau, y wybodaeth a'r sylfaen er mwyn cael y gorau o addysg uwch. O ganlyniad i'r gymysgedd o fodiwlau a ddilynir yn ystod y flwyddyn hon byddwch yn magu hyder, yn datblygu sgiliau newydd ac yn caffael gwybodaeth fydd yn rhoi sylfaen i chi ar gyfer llwyddo yn y radd a ddewisir gennych.'*[7]

### Lefel yr astudiaeth

11. Mae'n annhebygol y bydd y ddarpariaeth hon ar yr un lefel academaidd â'r hyn sy'n arferol yn ystod blwyddyn gyntaf astudiaeth israddedig - petai ar yr un lefel, mae'n aneglur sut y byddai'n gymorth i'r rhai fyddai fel arall yn methu â chael mynediad i addysg uwch[8]. Mae'n wir fod rhan o flwyddyn gyntaf gradd israddedig ar brydiau yn cael ei ddefnyddio er mwyn gosod myfyrwyr ar lefel cyrhaeddiad gyffredin ac angenrheidiol mewn pwnc penodol, lefel allai fod ar lefel 3 y Fframwaith Credyd a Chymwysterau (er enghraifft, hyfforddi myfyrwyr economeg mewn meysydd mathemateg penodol). Mae'n ymddangos bod blynyddoedd sylfaen yn cynnig darpariaeth sy'n bennaf ar y lefel hon yn hytrach na'n rhannol.

### Cyrsiau trosi

12. Gall blynyddoedd sylfaen gael eu marchnata fel blwyddyn 'drosi', sy'n caniatáu i fyfyrwyr newid disgyblaethau. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod yna beth gwerth efallai i ganiatáu'r newid hwn, ond nid yw'n

---

[6] http://www.lboro.ac.uk/departments/sefs/
[7] http://www.glyndwr.ac.uk/cy/Cyrsiauisraddedig/Blwyddyncicdanio/
[8] Yn yr enghreifftiau a ddefnyddir, mae Loughborough yn nodi mai i ymgeiswyr sydd, am ryw reswm, heb gael cyfle i astudio neu ennill cymhwyster yn y pynciau sy'n ofynnol er mwyn dechrau ar flwyddyn gyntaf eu rhaglen radd y mae'r flwyddyn sylfaen yn bennaf. Mae Glyndŵr yn nodi mai ar gyfer myfyrwyr sydd efallai heb ennill yr holl raddau gofynnol neu sydd heb fodloni'r gofynion mynediad ar gyfer y cwrs gradd 'traddodiadol' y mae'r flwyddyn gicdanio.

argyhoeddedig bod y flwyddyn sylfaen yn ffordd effeithiol o wneud hynny. Gan roi i'r neilltu'r ffaith bod yna efallai ddigon o ddarpariaeth ym maes addysg uwch ar gyfer y rhai sy'n dymuno newid cyfeiriad, a materion mewn perthynas â chost a dyled myfyrwyr (gweler isod), mae'r her o gyrraedd y safon cyrhaeddiad arferol er mwyn cael mynediad i gwrs gradd mewn pwnc nad yw'r myfyriwr wedi cael unrhyw gysylltiad blaenorol ag ef yn ystod un flwyddyn academaidd yn ymddangos yn rhywbeth gwych, yn arbennig yn achos myfyrwyr y mae eu cyrhaeddiad blaenorol yn debygol o fod yn rhy wan er mwyn cael mynediad i astudiaeth israddedig. Os oes yna dystiolaeth sy'n dangos bod myfyrwyr sydd â chyrhaeddiad digonol i gael mynediad i astudiaeth israddedig yn defnyddio'r cyrsiau hyn er mwyn newid disgyblaethau, nid yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o hynny.

**Ehangu mynediad**

13. Mae ehangu mynediad yn flaenoriaeth polisi allweddol i'r Llywodraeth[9]. Mae gwreiddiau ymagwedd y polisi presennol ym menter Ymestyn yn Ehangach 2002, a arweiniodd at sefydlu cyfres o bartneriaethau rhanbarthol.

14. Gall ehangu mynediad fod ar sawl ffurf. Yn ddiweddar bu i Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD) nodi pedwar set o anghydraddoldebau y gall ehangu mynediad fynd i'r afael â nhw[10], yn cynnwys 'cyflawniad addysgol blaenorol – anghydraddoldebau o ran cyflawniad addysgol cyn cychwyn mewn addysgu uwch'. Gall hon fod yn un agwedd allweddol o anghydraddoldeb y dyluniwyd blynyddoedd sylfaen i fynd i'r afael â hi.

15. Mae'r ymchwil gan WISERD yn awgrymu bod yna sgôp o hyd i gynyddu cyfranogiad mewn addysg uwch ymysg y rhai y mae eu cyrhaeddiad blaenorol yn annigonol ar gyfer symud ymlaen i addysg uwch. Fodd bynnag, nid yw'n eglur bod yna brinder penodol o fentrau a ddyluniwyd i godi cyrhaeddiad i lefel sy'n angenrheidiol er mwyn cael mynediad i addysg uwch, na fod yna broblemau arwyddocaol gyda'r mentrau hynny. Mae WISERD yn nodi bod yr agwedd hon o ehangu mynediad wedi bod yn 'elfen bwysig' o ymagwedd nifer o brifysgolion[11]. Bydd yr amrywiol ddulliau o ehangu mynediad gan y sectorau addysg uwch ac addysg bellach yn gyfarwydd iawn i'r rhai sy'n gweithio ym maes addysg ôl-16 neu sy'n gyfarwydd â'r maes hwnnw.

16. Mae WISERD yn cynnig sylw arall y mae Llywodraeth Cymru yn credu sy'n berthnasol, gan nodi bod yna 'densiwn dwys o ran polisi ehangu mynediad, gan nad yw'r hyn y mae'r sector addysg uwch yn dymuno ei gyflawni trwy ei arferion ehangu mynediad yn gwbl gydnaws â'r hyn yr hoffai llunwyr polisi cenedlaethol a'r cyhoedd i bolisïau ehangu mynediad ei

---

[9] *Datganiad polisi ar addysg uwch.* Llywodraeth Cymru, 2013.
[10] *Mynediad i addysg uwch yng Nghymru. Adroddiad i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, t.33.* Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD) 2014
[11] WISERD, t.33.

gyflawni'[12]. Maent hefyd yn nodi 'bod ehangu mynediad, mewn tirlun addysg uwch mwyfwy cystadleuol, mewn gwirionedd yn ddim mwy na ffordd arbennig o recriwtio'[13].

**Darpariaeth addysg bellach**

17. Ysgolion a sefydliadau addysg bellach yw'r prif ddarparwyr addysg lefel 3. Mae'r sector addysg bellach yn cynnig ystod eang o ddarpariaeth sydd wedi ei dylunio er mwyn galluogi mynediad i addysg uwch i rai sydd naill ai heb gael y canlyniadau angenrheidiol yn yr ysgol neu sy'n dewis gadael yr ysgol a chychwyn ar eu hastudiaethau ôl-16 mewn coleg.

18. Mae'n ymddangos bod blynyddoedd sylfaen yn targedu'r un myfyrwyr a fyddai fel arall wedi ymgymryd ag astudiaeth mewn coleg addysg bellach. Os yw hyn yn wir:

- gall y gystadleuaeth ychwanegol ansefydlogi'r trefniadau cydweithio a'r partneriaethau Ymestyn yn Ehangach presennol; a

- mae'n ymddangos y byddai'n cynyddu cost darpariaeth yn sylweddol i'r Llywodraeth a'r myfyriwr.

**Cost y ddarpariaeth, dyled myfyrwyr a gwerth am arian**

19. Gydag eithriadau prin mae darpariaeth Addysg Bellach ar gyfer dysgwyr llawn amser, ar lefel tri ac is, yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o grant blynyddol i golegau; ac mae'r gost i'r Llywodraeth yn sylweddol is na'r ffioedd dysgu a godir gan y sector prifysgolion.

20. I'r gwrthwyneb, mae blynyddoedd sylfaen yn gofyn am ffi ymlaen llaw gan y myfyriwr, a bydd y myfyriwr fel arfer yn cymryd benthyciad fydd yn talu'n rhannol am y ffi honno. Mae'r gost i'r Llywodraeth yn cynnwys grantiau er mwyn talu am gyfran o'r ffi dysgu a chostau byw, yn ogystal â'r cymhorthdal a delir i bob pwrpas mewn perthynas â benthyciadau[14]. Mae hyn yn codi pryderon sylweddol mewn perthynas â gwerth am arian y ddarpariaeth hon.

[12] WISERD, t.45
[13] WISERD, t.45
[14] Mae ffioedd Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau yn darogan y *'subsidy that the Government implicitly pays to students through favourable terms connected to student loans'* (*Student Loans. Third report of session 2014-15*, t.9. Pwyllgor Busnes, Arloesi a Sgiliau Tŷ'r Cyffredin, Gorffennaf 2014). Mae hyn yn cynnwys y benthyciadau hynny na chânt byth eu had-dalu yn ogystal â'r ffaith bod y gyfradd log a godir yn is na chost cyfalaf y Llywodraeth.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015**

21. Dyluniwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd y ddeddf yn dod i rym ym mis Ebrill 2016 a bydd yn rhoi dyletswyddau penodol ar Lywodraeth Cymru (a chyrff cyhoeddus eraill). Gall blynyddoedd sylfaen gyfrannu tuag at amcan llesiant 'Cymru sy'n fwy cyfartal'.

22. Mae'r amcan o greu Cymru sy'n fwy cyfartal yn darlunio 'cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial, ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau'. Efallai y bydd darparu cymorth ar gyfer astudiaeth blwyddyn sylfaen yn help tuag at wireddu'r amcan hwn, drwy alluogi'r rhai na fyddai fel arall yn gallu cael mynediad i addysg uwch, neu ddisgyblaeth benodol, i ymgymryd ag astudiaeth. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y gellid gwireddu'r un amcan mewn ffyrdd eraill.

**Crynodeb: y ddadl o blaid newid**

23. Mae yna beth pryder bod cyrsiau sy'n cynnwys blwyddyn sylfaen yn cael eu defnyddio fel offeryn i gynyddu recriwtio i Sefydliadau Addysg Uwch mewn modd sy'n:

- anghyson ag un o egwyddorion sylfaenol polisi cyhoeddus, sef sicrhau gwerth am arian;
- arwain at gystadleuaeth ddigroeso mewn perthynas â gwireddu amcanion ehangu mynediad; a
- chynyddu dyledion myfyrwyr.

24. Efallai bod y flwyddyn ychwanegol o incwm o ffioedd a gynhyrchir gan y blynyddoedd sylfaen yn arwain at gymhelliant anfwriadol a digroeso i ehangu recriwtio o'r fath heb gyfrifyddu costau ychwanegol - y rhai na thelir amdanynt gan y sefydliad recriwtio - y ddarpariaeth honno yn ddigonol. Nid oes yna dystiolaeth amlwg na nodweddion sy'n perthyn i'r cyrsiau hyn sy'n awgrymu y byddant yn ffyrdd mwy effeithiol ac effeithlon o ehangu mynediad na'r amrywiol ddulliau sydd eisoes yn bodoli.

## Ein cynnig

25. Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried nifer o opsiynau polisi all fynd i'r afael â'r pryderon a amlinellir uchod. Mae pob un, yn cynnwys eu prif gostau a buddion, yn cael eu hamlinellu isod.

a. Gwneud dim - parhau i ddarparu cymorth i dalu am ffioedd a chostau byw ar y raddfa israddedig lawn.

Nid yw Gweinidogion Cymru yn argyhoeddedig y gellir cyfiawnhau'r gwariant a'r ddyled ychwanegol ar sail polisi ehangu mynediad. Mae costau a buddion y sefyllfa bresennol wedi cael eu trafod uchod.

b. Darparu llai o gymorth i dalu am ffioedd a/neu gostau byw ar gyfer y flwyddyn sylfaen.

Byddai hyn yn mynd rhan o'r ffordd i reoli dyled myfyrwyr a'r gost i Lywodraeth Cymru. Gan ystyried lefel yr astudiaeth sydd ynghlwm â'r cyrsiau hyn, efallai y bydd llai o gymorth yn adlewyrchu cost y ddarpariaeth yn fwy cywir, ac na fyddai felly'n rhwystr i ddarpariaeth o'r fath. Fodd bynnag, mae hi bron yn sicr y byddai angen i'r cymorth tuag at gostau fod yn ddigyfnewid (oherwydd na ellir rheoli costau byw'r myfyrwyr), ac mae hynny yn cyfyngu ar fuddion yr opsiwn hwn.

c. Darparu cymorth llawn neu ostyngedig ar gyfer pynciau penodol, a dim i eraill.

Byddai hyn yn cyfyngu ar y cymorth tuag at gyrsiau penodol a fyddai efallai'n flaenoriaethau polisi penodol. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cymell astudio pynciau penodol ond mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn, a byddai hyn yn gyfystyr â gwyro oddi wrth bolisi arferol. Efallai y byddai'n lled effeithiol o ran rheoli costau, ond ychydig o gyfiawnhad polisi amlwg sydd yna dros ymagwedd rannol o'r fath.

d. Terfynu cymorth ar gyfer y flwyddyn sylfaen

Byddai hyn yn terfynu cymorth ar gyfer blwyddyn sylfaen cyrsiau gradd israddedig yn y sector addysg uwch, ond byddai'n parhau i roi cymorth tuag at gyrsiau tebyg a ddarperir yn y sector addysg bellach, na fyddai'n gyffredinol yn costio dim i'r dysgwr. Byddai gweithgareddau ehangu mynediad yn cael eu cynnal fel arfer.

## Effaith

26. Gan dybio na fyddai'r opsiwn o wneud dim yn cael ei ddewis, effaith yr opsiynau hyn fydd gostwng y galw am gyrsiau o'r fath, a hynny'n sylweddol mae'n debyg. Bydd hynny'n arwain at golli incwm i'r darparwyr addysg uwch hynny sy'n brif ddarparwyr cyrsiau o'r fath. Bydd yn lleihau costau i Lywodraeth Cymru a dyled myfyrwyr.

27. Mae'r effaith ar ehangu mynediad yn llai eglur, ond mae'r hanes hir a'r dulliau o gydweithio effeithiol ar ehangu mynediad yng Nghymru yn awgrymu y byddai'r effaith yn fychan. Efallai y bydd yn effeithio'n gadarnhaol ar y niferoedd fydd yn dilyn cyrsiau lefel 3, ac yn annog mwy o gydweithio rhwng darparwyr AB ac AU.

## Gweithredu

28. Yn dilyn ymgynghoriad ac unrhyw newidiadau fyddwn yn eu gwneud i'r cynnig hwn, rydym yn bwriadu rhoi'r trefniadau newydd ar waith ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18. Bydd angen is-ddeddfwriaeth ac rydym yn disgwyl y byddwn yn cyflwyno rheoliadau drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gynnar yn 2017.

29. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd diffinio'r cyrsiau hyn yn ofalus yn bwysig er mwyn sicrhau bod sefydliadau'n deall yn iawn beth na fydd bellach yn derbyn cymorth, ac y gallant barhau i gynllunio eu darpariaeth gyda sicrwydd.

30. Mae'n amlwg beth yw'r mater o dan sylw - cost i'r unigolyn a Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â chyfnod o astudio a ddefnyddir i godi cyrhaeddiad unigolyn i'r lefel sydd ei hangen er mwyn cychwyn ar raglen gradd, o'i chymharu â'r dewisiadau eraill sydd ar gael. Mae diffiniad yn debygol o ystyried y rhyngweithio rhwng:

- cyrhaeddiad y myfyriwr;
- lefel y ddarpariaeth; a'r
- cyfnod astudio ychwanegol.

## Ein cwestiynau ni

**4** Rydym wedi amlinellu cyfres o bryderon mewn perthynas â darpariaeth blwyddyn sylfaen, yn bennaf oherwydd ei bod yn cynrychioli gwerth gwael am arian ac nid yw'n amlwg yn darparu unrhyw fudd i'r myfyriwr o'i chymharu â'r llwybrau eraill sydd ar gael tuag at addysg uwch. A ydych yn cytuno gyda'r dadansoddiad hwn? Pam?

**5** Pa un o'r pedwar cynnig ydych chi'n meddwl ddylid ei weithredu? Pam?

**6** A ydych yn credu bydd ein diffiniad o flynyddoedd sylfaen ym mharagraff 70 yn cyfleu'r math o ddarpariaeth yr ydym wedi ei thrafod?

**7** Petai Gweinidogion Cymru yn penderfynu terfynu cymorth ar gyfer y cyrsiau hyn, pa effaith ydych chi'n meddwl byddai hynny'n ei gael ar ehangu mynediad? A ydych yn credu y byddai unrhyw grwpiau penodol yn wynebu anfantais o ganlyniad i'r polisi hwn? Pa nodweddion sy'n perthyn i'r bobl sy'n dilyn y cyrsiau hyn?